## ADRAN RHEOLEIDDIO

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | Pwyllgor Cynllunio |
| **DYDDIAD:** | 17 Mehefin 2013 |
| **TEITL:** | Gorchymyn Diogelu Coed (GDC) Dros Dro D44– tir ger 5 Degrees West, Lon Garmon, Abersoch. |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | Ystyried cadarnhau'r GDC ar y safle uchod. |
| **ADRODDIAD GAN:** | Pennaeth Gwasanaeth Rheoleiddio |
| **GWEITHREDU:** | Gofynnir i'r pwyllgor dderbyn yr argymhelliad |

---

### 1. CEFNDIR

1.1 Rhoddwyd Gorchymyn Diogelu Coed (GDC) dros dro ar goed Pîn Monterey (Monterey Pine) a choed Cypreswydden (Monterey Cypress) yn y lleoliad a ddangosir ar y cynllun amgaeedig ar y 24 Ionawr 2013 yn dilyn archwiliad gan Wasanaeth Bioamrywiaeth y Cyngor. Derbyniodd y gwasanaeth hwnnw ymholiad i dorri un o'r coed, ac fe wnaethpwyd archwiliad oherwydd y bygythiad rhagweladwy i'r goeden i'w thorri.

1.2 Gwnaethpwyd asesiad o'r coed gan ddefnyddio sustem TEMPO ac fe sgoriodd y coed 17 pwynt. Mae'r sustem TEMPO yn nodi bod unrhyw goeden sydd yn sgorio mwy na 16 pwynt yn sicr yn teilyngu ei diogelu.

### 2. LLEOLIAD a DISGRIFIAD

2.1 Mae'r coed yn aeddfed, iach, a gyda siâp da, ac wedi eu lleoli ar dir preifat mewn man amlwg yn y tirwedd, ac yn gwneud cyfraniad sylweddol i fwynderau gweledol yr ardal, sydd hefyd wedi ei adnabod fel Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol. Maent o werth mwynderol uchel.

2.2 Mae'r tir ble lleolir y coed yn terfynu ar faes carafannau sefydlog, ac mae rhai o'r carafannau wedi eu lleoli yn agos at y coed sydd yn destyn y gorchymyn dros dro presennol.

### 3. SYLWADAU ALLANOL

3.1 Yn unol â gofynion statudol ymgynghorwyd a chymdogion sydd yn debygol o gael eu heffeithio gan y GDC, y perchennog tir â'r Cyngor Cymuned lleol, a rhoddwyd cyfnod o 28 diwrnod iddynt ymateb.

3.2 Derbyniwyd 5 llythyr oddi wrth berchnogion rhai o'r carafannau cyfochrog yn gwrthwynebu cynnwys un goeden (sef coeden T1) o fewn y GDC, ond mae Cyngor Cymuned Llanengan yn cefnogi'r bwriad i warchod y coed dan sylw. Cyflwynir y mater i'r pwyllgor am benderfyniad o ganlyniad i dderbyn y llythyrau gwrthwynebu.

## 4. ASESIAD

4.1 Mae’r cyfan o’r llythyrau a dderbyniwyd, ac eithro llythyr Cyngor Cymuned Llanengan, yn gwrthwynebu bwriad y Cyngor i ddiogelu'r coed drwy orchymyn yn bennaf oherwydd pryderon yn ymwneud â lleoliad a chyflwr 1 goeden binwydden y cyfeirir ati fel rhif T1 ar y cynllun sydd ynghlwm i’r gorchymyn dros dro.

4.2 Mae’r gwrthwynebiadau wedi eu crynhoi isod:

- Coeden T1 yn gwyro dros garafán.
- Creu peryglon i garafanau, eiddo ac aelodau o’r teulu.
- Mae’r goeden bîn wedi tyfu yn sylweddol dros y blynyddoedd gyda’r gwreiddiau yn weladwy ar wyneb y ddaear ac o’r herwydd mewn perygl o gael eu chwythu lawr.
- Nid yw’r 9 coeden arall yn achosi'r un bygythiad oherwydd eu lleoliad mewn perthynas i’r prifwyntoedd.
- Dylai diogelwch pobl gael blaenoriaeth dros warchod coed ac ni fyddai colli un goeden yn amharu ar osodiad na chyfraniad y coed i’r tirlun.
- Cyflwr y goeden a’i changhennau marw yn achosi pryderon ac mae nifer o ganghennau wedi disgyn yn ddiweddar ar geir a charafanau cymdogion.
- Cymdogion yn fodlon cyfrannu at y gost o dorri'r goeden er dileu unrhyw berygl unwaith ac am byth - cyn i niwed difrifol ddigwydd ond ddim i ymgymryd â gwaith cynnal a chadw tymor hir a fyddai yn achosi costau tymor hir.
- Baw adar sylweddol yn disgyn ar eiddo ac yn creu bygythiad i iechyd y cymdogion.
- Amharu ar insiwrans eiddo.
- Gallai cadw'r goeden amharu ar awydd meddianwyr y carafanau i aros yn y carafanau ac felly cael effaith negatif ar yr economi leol.
- Pe byddai'r gorchymyn yn cael ei gadarnhau heb newid, yna byddai cymdogion yn cymryd y byddai'r Cyngor yn gyfrifol dros unrhyw golled neu niwed i eiddo neu niwed i berson neu farwolaeth yn codi o ganlyniad i’r goeden bin T1 yn cael ei chwythu lawr.

4.3 Mae’r llythyr cefnogaeth gan Gyngor Cymuned Llanengan yn nodi dim gwrthwynebiad i’r Gorchymyn. Fodd bynnag, mae’r llythyrau a dderbyniwyd yn gwrthwynebu'r GDC yn nodi yn bennaf mai un goeden, sef coeden T1, sydd yn achosi'r pryder mwyaf oherwydd ei lleoliad mewn perthynas â charafanau ar safle cyfochrog. Sylweddolir bod ambell garafán a leolir ar hyd terfyn deheuol y maes carafanau o fewn radiws cwympo y goeden, ac mae rhai canghennau hefyd yn ymestyn dros y carafannau yn bresennol.

4.4 Nodir pryderon y gwrthwynebwyr ynglŷn â bwriad y Cyngor i ddiogelu'r coed. Serch hynny, mae’n ymddangos bod y gwrthwynebiadau wedi eu selio ar farn yn unig, ac nid unrhyw dystiolaeth bendant wedi ei baratoi gan berson cymmwys. O ganlyniad i hyn, cysylltwyd gyda’r gwrthwynebwyr yn rhoddi 14 diwrnod iddynt gyflwyno tystiolaeth arbenigwr coed ynglŷn â chyflwr y coed, gan cynnwys coeden T1, ond ni dderbyniwyd ymateb i’r gwahoddiad hwn.

4.5 O ganlyniad i dderbyn y gwrthwynebiadau bu i swyddog o’r Gwasanaeth Bioamrywiaeth ail-ymweld â’r safle ar y 26 Mawrth 2013. Nodir bod y gwrthwynebiadau yn datgan bod lleoliad coeden T1 yn benodol yn achosi problemau iechyd a diogelwch oherwydd ei chyflwr, a bod baw adar sy’n clwydo yn y goeden, ynghŷd â changhennau, yn disgyn ar y

carafanau cyfochrog. O ganlyniad i'r ymweliad pellach, datgan y Gwasanaeth Bioamrywiaeth na fyddai gwrthwynebiad i drin y coed mewn modd priodol, ac y byddai hyn yn lleihau'r risg o ganghennau yn disgyn ar y carafanau cyfochrog, ac felly yn lleihau pryderon y gwrthwynebwyr. Yn ogystal a hyn, mae'n debygol bod offer ar gael a fyddai yn atal adar rhag clwydo yn y coed, ond gan nad oes sicrwydd y byddai dulliau o'r fath yn effeithiol, rhaid ystyried os yw hyn yn gyfiawnhad digonol i arddel coeden T1 o'r gorchymyn fel y gellir ei thorri. Ystyrir mai optsiwn eithafol fyddai hyn o ystyried pwysigrwydd y goeden, a'i chyfraniad gyda gweddill y coed i fwynderau gweledol yr ardal.

4.6 Honir yn ogystal bod coeden T1 yn beryglus ac yn debygol o ddisgyn mewn gwyntoedd cryfion, ni dderbynwyd tystiolaeth gan y gwrthwynebwyr yn profi hyn. Un o nodweddion y goeden *Pinus radiata* (Monterey Pine) yw ei gallu i wrthsefyll gwyntoedd halenog, a'r ffaith bod ei chanopi yn fychan o gymharu â maint y goeden ei hun. Maent wedi addasu i ddelio gyda phrifwyntoedd, ac fe'i tyfir ar gyfer creu lloches yng ngorllewin Ewrop. Yn ystod yr archwiliad safle ni welwyd unrhyw arwydd bod coeden T1 mewn cyflwr perygl neu wael, ac ni welwyd unrhyw arwydd ychwaith i awgrymu bod ei gwreiddiau yn ansefydlog. Nid oes unrhyw dystiolaeth wedi ei gyflwyno gyda'r gwrthwynebiadau a fyddai'n argyhoeddir Gwasnaeth Bioamrywiaeth y dylid eithrio'r goeden o'r gorchymyn terfynol.

## 5. <u>CASGLIADAU</u>

5.1 Mae'r 10 coeden a ddiogelir gan y (GDC) hwn yn sylweddol eu maint ac wedi eu lleoli mewn lleoliad uchel ac amlwg o fewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol. Mae'r asesiad a wnaethpwyd ohonynt yn dangos eu bod o werth mwynderol uchel ac yn gwneud cyfraniad positif i fwynderau gweledol cefn gwlad.

5.2 Mae'r gwrthwynebiadau yn codi yn bennaf oherwydd honiad bod coeden T1 yn cael effaith niweidiol ar iechyd pobl ac eiddo. Ni fyddai gwrthwynebiad i drin y goeden, na gweddill y coed, mewn modd priodol gan arbenigwr coed, heb yr angen i dorri, ac ystyrir y byddai hyn yn lleihau y pryderon a fynegwyd gan y gwrthwynebwyr. Ni chyflwynwyd tystiolaeth ychwaith gan berson cymmwys bod coeden T1 yn beryglus, ac ni ystyrir bod cyfiawnhad i newid y GDC. Dylid hefyd sylweddoli nad yw cadarnhau'r GDC yn rhwystro unigolyn rhag cyflwyno cais i'r Cyngor dros ymgymryd â gwaith i'r coed, gan gynnwys torri, yn y dyfodol os y gellir dangos cyfiawnhad digonol dros wneud hynny.

5.3 Nodir pryderon y gwrthwynebwyr, ond ystyrir bod y coed yn iach ac ni chyflwynwyd unrhyw dysiolaeth i ddangos y dylid eithro unryw un o'r coed o'r gorchymyn terfynol, Mae modd i drin y coed mewn ffordd derbyniol a fydd yn lleihau pryderon y gwrthwynebwyr, ac annogir y perchennog tir i gyflogi arbennigwr i ymgymryd a gwaith o'r fath er mwyn sicrhau bod y coed yn parhau yn iach i'r dyfodol. Ystyrir bod pwysigrwydd cyfraniad y coed at edrychiad gweledol yr ardal yn gorchfygu unrhyw ddadl i'w torri.

## 6. <u>Y BROSES CADARNHAU</u>

6.1 Mae 4 dewis i'r Pwyllgor ar ôl ystyried cynnwys yr adroddiad hwn, ynghŷd â'r gwrthwynebiadau a sylwadau a dderbyniwyd, sef:

1. Cadarnhau'r gorchymyn fel y mae, heb newidiadau
2. Cadarnhau gyda newidiadau
3. Peidio cadarnhau
4. Cynnal ymchwiliad cyhoeddus.

**7. ARGYMHELLIAD**

7.1 Cadarnhau’r gorchymyn fel ac y mae heb newidiadau.